**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 23.5.24**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:667: Presennol**: (Gareth Wyn Jones Cadeirydd am y noson), Gareth Owen, Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Deryck Evans, William Owen, Rhodri Wigley, Huw Williams, Sandra Evans (Clerc)

**19:668: Ymddiheuriadau**: Aeron Pughe, Paul Hughes, Bedwyr Fychan, Glyn Jones, Elwyn Vaughan, Dafydd Evans, Iwan Pughe Jones,

**19:669: Materion Personol**

**19:670: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:671: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Ebrill 2024**

Taliad y praesept a dderbyniwyd am £3685.00

Adroddiad y Cynghorwyr – Dylai adroddiad y Cyngh. Rhodri Wigley ddarllen fel a ganlyn: '*Cafwyd cyfarfod i drafod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn gyffredinol roedd agwedd fwy positif. Gwneir arbedion drwy leihaunifer y staff. Bydd y pedwar dosbarth cyfredol yn cael eu newid i dri dosbarth. Y teimlad cyffredinol yw na fydd y trefniant hwn yn ddigonol i ateb yr ystod oedran.*'

Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:672: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**Mapio'r mynwentydd (19:664)** Bu Iwan a Rhodri ym mynwent Darowen i fapio faint o le sydd ar gael. Gwelwyd bod cryn dipyn o le a bod rhai tyrau beddi heb gerrig bedd. Penderfynwyd y dylid cysylltu â'r bobl oedd wedi archebu plotiau a gwahodd Dilwyn Rees i brofi a yw'r lleoliadau hynny'n rhydd o ran claddedigaethau blaenorol. Y cam nesaf fydd nodi'r plotiau a brynwyd ar y map cyfredol. Dymuniad y Cyngor yw gadael canrif o leiaf rhwng claddedigaethau yn yr un safle.

Bu Gareth Owen yng ngolwg mynwent Llanwrin. Mae llefydd gwag i'w gweld e.e. ger yr ywen ond mae angen sicrhau bod cerrig beddi wedi'u gosod yn erbyn y wal gan ar gyfer cyrff yn y fynwent.  Mae lle i gladdu llwch yn erbyn y wal. Nodwyd byddai angen sicrhau bod modd claddu yn y lleoliadau hynny cyn caniatáu hawl i'w wneud. Diolchwyd yn fawr i Gareth Owen am dynnu lluniau manwl a fydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer mapio.

Bydd y Cyngor yn trafod gyda manylder y meini prawf i'w rhoi i'r ymarferwyr ar gyfer y ddwy fynwent.

**19:673: Adroddiad y Clerc -**

**19:674: Cynllunio**: (http://pa.powys.gov.uk/online-applications/).

**19:675: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

• Cyflog y Clerc Mis 1 Ebrill £283.20 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley•

**19:676: Gohebiaeth**

- Cafwyd llythyr gan y Parch. Miriam Beecroft yn holi am gynnydd o ran tocio ywen mynwent Darowen gan ei fod yn effeithio'n andwyol ar yr eglwys. Bydd Rhodri Wigley yn cysylltu â Jon Anderson i weld pryd bydd modd iddo gyflawni'r gwaith.
- Cafwyd neges gan Andrew Naylor (Awdit Cymru) ynglŷn â'r dogfennau a gyflwynwyd ar gyfer 2021-2022. Mae'r clerc wedi cysylltu i ddweud bod y dogfennau perthnasol wedi cael eu cyflwyno'n electronig a hefyd ar ffurf papur fel rhan o'r archwiliad tair blynedd.
- Neges gan Tom Lewis, Swyddog Prosiect Gwasanaeth Bws Lleol Rhanbarthol i holi am wybodaeth am ddarpariaeth bysiau. Rhannwyd holiadur gyda'r holl gynghorwyr.
- Neges gan Julie Adams ar ran Sue Pulsford am osod diffibriliwr yng Nghomins. Gofynnwyd am wybodaeth bellach am yr hyn a ddigwyddodd i'r hen giosg ffôn a brynwyd gan rywun yn y gymuned gan BT ar gyfer diffibriliwr. Anfonir manylion cyswllt Phil Hill er gwybodaeth.

**19:677: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Y Fforwm Cleifion Gwenfair Rhys-Davies** Nodwyd bod y Cynghorwyr yn derbyn adroddiadau'n uniongyrchol erbyn hyn.

**19:678: Ffyrdd a Phontydd**

- Problem gyda'r ffordd yn rhoi ger layby Glanfechan ar ôl i'r ddau gar fynd drwy'r sietyn.
- Cysylltir ag Aled Jones a Clive Jones Cyngor Sir Powys i drafod modd i dracio ymateb i broblemau sy'n cael eu hadrodd er mwyn i'r Cynghorwyr ateb ymholiadau gan y cyhoedd bod yn effeithiol. Rhoddir cyfeirnod grid yn y dyfodol gyda phob pwynt os bydd yn berthnasol er cymorth. Cynigir

cyfarfodydd safle, cynigiwyd hwn gam Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan William Owen

- Ffordd Llanwrin angen cyfyngder cyflymder 20 mya ar ei hyd neu angen lledu'r ffordd/torri corneli. Cytunwyd pawb bod hwn yn bwynt dilys ond prin byddai'r gobaith o'i wireddu ar hyn o bryd
- Bin baw cŵn Cwmlline - Cysylltir â Chyngor Sir Powys i gael bin ychwanegol gan fod y bin cyfredol yn orlawn ac yn rhy drwm i weithiwr unigol ei gludo'n ddiogel.
- Dŵr ar y ffordd y tu ôl i Penybanc o ganlyniad i grating diffygiol ar ochr y ffordd (Cyfeirnod SH8459907861)
- Tipio anghyfreithlon – top wtra Penybont, hefyd, er eu hadrodd mae'r teiars o hyd ar ffordd gefn Tal-y-wern i Bontdolgadfan
- Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

**<u>Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 23.5.24</u>**

Cafwyd dau gais am nawdd gan ysgolion ar gyfer yr Urdd ym Meifod eleni. Datganwyd diddordeb gan Gareth Wyn Jones, Rhodri Wigley ac Aled Griffiths.

- Ysgol Glantwymyn – cyfraniad o £714.00 at gostau'r holl gystadleuwyr a'r plant i gyd sy'n cymryd rhan ym Mhasiant yr Urdd.
  (Seiliwyd hyn ar gyfraniad o £11.40 yr un)
- Ysgol Bro Hyddgen – Cyfraniad o £450.00 ar gyfer 23 o blant o ardal Glantwymyn yn cystadlu dros ddau ddiwrnod. (Seiliwyd hyn ar gost debygol o £18.00 yr un yn ôl y wybodaeth a gafwyd gan yr ysgol.)

Cynigiwyd y cyfraniadau uchod gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen. Cytunodd pawb yn unfrydol.
Dymunwyd yn dda i bawb yn yr eisteddfod gan gydnabod cyfraniadau dirfawr at yr athrawon, y plant a'r rhieni.